# Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts a Liz Wood |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ),<br>Peiriannydd Grŵp (Rheoli Datblygu a Thraffig) (AR),<br>Ymgynghorydd Cyfreithiol (BS),<br>Uwch Swyddog Cynllunio (JR),<br>Cynorthwyydd Cynllunio (CMT),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Gwe-ddarlledu (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Robin Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd.<br><br>Cynghorydd Derek Owen |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 8 Ionawr, 2025 yn gofnod cywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd Jackie Lewis dan yr aelodau a oedd yn bresennol.

**4 YMWELIAD SAFLEOEDD**

Ni ystyriwyd unrhyw ymweliad safle yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Nid oedd unrhyw Siaradwyr Cyhoeddus yn y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**7 CEISIADAU'N CODI**

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY**

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**10 CEISIADAU'N GWYRO**

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU**

**12.1 FPL/2024/304 – Cais llawn ar gyfer creu ardal parcio, llwybr troed a llwybr beicio ym Mharc Gwledig y Morglawdd, Caergybi.**

Cyflwynwyd y cais i’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan fod y cais yn cynnwys safle sy’n eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais ar gyfer mannau parcio, llwybr troed a llwybr beicio ym Mharc y Morglawdd, Caergybi. Mae'r llwybr cerdded a beicio presennol yn rhedeg cyfochr â'r ffordd fynediad ac yn terfynu cyn y giât fynedfa i Barc Gwledig y Morglawdd. Fel rhan o'r cais hwn, bydd y llwybr yn cael ei ymestyn oddeutu 150m i'r gorllewin, gan arwain at brif hwb y parc gwledig. Bydd yn llwybr 3m o led, wedi'i adeiladu gan ddefnyddio graean rhydd i gyd-fynd â'r llwybr presennol. Bydd y gwaith yn cynnwys adleoli arwydd ger mynediad y safle, man croesi i gerddwyr a thynnu rhai planhigion. Yn ogystal â'r llwybr cerdded a beicio, bydd deuddeg man parcio newydd yn cael eu creu ar yr ardal wair ar hyd y ffordd, i'r dwyrain o bedwar man parcio sydd eisoes ar ochr y ffordd. Bydd gweirgloddiau blodau gwyllt yn cael eu creu a'i rheoli yn y cae cyfagos. Mae Ymgynghorydd Ecoleg y Cyngor yn fodlon â'r cynnig, oherwydd bydd yn cynnig gwelliannau i fioamrywiaeth. Mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cynnig, cyn belled a bo Cynllun Rheoli Traffig yn cael ei gyflwyno gan fod y ffordd o Draeth Newry i'r Parc Gweledig yn gul.

Dywedodd y Cynghorydd Glyn Haynes, a fel Aelod Lleol, ei fod yn croesawu'r cynnig gan y bydd yn estyniad naturiol i'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu ar y safle.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones, a fel Aelod Lleol, ei fod yn cefnogi'r cais gan fod Parc Gwledig y Morglawdd yn safle poblogaidd i bobl leol ac ymwelwyr. Cyfeiriodd at y deuddeg man parcio fydd yn cael eu creu, a gofynnodd a ellid defnyddio concrid 'grasscrete' yn hytrach na tharmac. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio y byddai angen ymgynghoriad pellach i newid y cynlluniau ar gyfer y datblygiad, a gan fod y cynnig hwn yn ddibynnol ar gyllid grant, mae risg o golli'r arian hwnnw. Dywedodd y byddai defnyddio tarmac i orffen y deuddeg man parcio yn creu arwyneb tebyg i'r ffordd bresennol a'r pedwar man parcio sydd eisoes yno.

Dywedodd y Cynghorydd Jeff Evans ei fod hefyd yn cefnogi'r cais, fodd bynnag, dywedodd fod problem gyda'r ponciau arafu (speedbumps) sy'n arwain at Barc Gwledig y Morglawdd am eu bod yn rhy uchel, a gofynnodd a fydd problemau pellach ynghlwm â chreu deuddeg man parcio ychwanegol yn y parc. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y ffordd sy'n arwain at y parc yn briffordd ddi-ddosbarth, ac mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi cyfyngu rheolaeth dros y ffordd, a dylid codi'r mater gyda Rheolwr Parc Gwledig y Morglawdd.

Cynigiodd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod y cais yn cael ei gymeradwyo. Eiliodd y Cynghorydd Geraint Bebb y cynnig i gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio o fewn yr adroddiad.**

## 13 MATERION ERAILL

Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Y CYNGHORYDD KEN TAYLOR**
**CADEIRYDD**